Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Dyletswydd Gonestrwydd

## Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl am gyfraith newydd sydd yn dod i Gymru




Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan Llywodraeth Cymru. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o "**Ymgynghoriad ar y Canllaw a'r Rheoliadau Statudol sydd yn ofynnol i weithredu'r Dyletswydd Gonestrwydd**'.

**Awst 2022**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai eich bod angen help i'w darllen. Gofynnwch i rhywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.



Efallai bod y geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn anodd eu deall. Rydych chi'n gallu gweld beth mae'r holl eiriau mewn glas yn feddwl ar **dudalen 75**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. Am ragor o wybodaeth cysylltwch gyda:

**Gwefan:**

**E-bost:**
HSCQualityandEngagement@gov.wales

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych yn feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

# Cynnwys

**Tudalen**


Dyletswydd Gonestrwydd.................................................... 1

Cyflwyniad ................................................................... 4

Rhagor am Ddyletswydd Gonestrwydd .............................. 6

- **Pryd y dylai Dyletswydd Gonestrwydd gael ei ddefnyddio ........................................................... 8**
- **Here Enghraifft o niwed i berson.................................. 17**
- **Ydy'r Dyletswydd Gonestrwydd yn newydd i'r GIG?.... 20**
- **Dweud wrth y person beth sydd wedi mynd o'i le........ 22**
- **The Y broses Dyletswydd Gonestrwydd......................... 24**
- **Pwy sydd yn gyfrifol? ................................................... 26**
- **Rhestrau aros ............................................................. 29**
- **Adrodd ....................................................................... 33**
- **Dyddiadau ar gyfer adrodd........................................... 36**
- **Beth sydd yn digwydd pan mae rhywun yn cysylltu gyda pherson? .......................................................... 39**
- **Hyfforddiant ............................................................... 52**
- **NHS Sut fydd y dyletswydd yn cael ei reoli yn y GIG ... 55**
- **Newidiadau i Reoliadau Gweithio i Wella...................... 60**
- **Trin pobl yn gyfartal ac yn deg ..................................... 67**
- **Yr iaith Gymraeg ......................................................... 69**

Sut rydyn ni'n  defnyddio eich gwybodaeth.................... 72

Geiriau Anodd ............................................................... 75

# Cyflwyniad



Mae cyfraith yng Nghymru o'r enw y **Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020**.



Mae darnau newydd i'r gyfraith yma o'r enw **Dyletswydd Gonestrwydd**.


Mae **Dyletswydd Gonestrwydd** yn meddwl bod gan gyrff fel y GIG **ddyletswydd** i fod yn **agored** a **gonest** gyda'r bobl maen nhw'n gofalu amdanyn nhw pan mae pethau yn **mynd o'i le**. Ac fe ddylen nhw geisio gwneud pethau yn iawn os ydyn nhw wedi achosi niwed.

GIG CYMRU NHS WALES

Mae rhan o'r **Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2020** yn gosod **Dyletswydd Gonestrwydd** ar y GIG.



Mae hyn yn meddwl bod rhaid i'r GIG fod yn agored a gonest gyda'r bobl maen nhw'n gofalu amdanyn nhw pan mae pethau yn mynd o'i le.




Fe fyddwn ni yn siarad rhagor am beth mae **Dyletswydd Gonestrwydd** yn ei feddwl drwy'r ddogfen yma.



Rydyn ni eisiau gwybod beth  rydych chi'n feddwl am y dyletswydd yma a'r rhannau o'r gyfraith sydd yn mynd gyda hynny.




Mae cwestiynau ar ôl pob adran yn y ddogfen yma.




Atebwch y cwestiynau os gwelwch yn dda ac anfon eich atebion inni erbyn **7 Rhagfyr 2022**:



**Ar e-bost:** [HSCQualityandEngagement@gov.wales](mailto:HSCQualityandEngagement@gov.wales)




**Drwy'r post:** Adran Gofal Iechyd y Boblogaeth
Grŵp Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Swyddfeydd Llywodraeth Cymru
Parc Cathays, Caerdydd
CF10 3NQ

# Rhagor am Ddyletswydd Gonestrwydd



Nod **Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2020** ydy gwella iechyd a llesiant yng Nghymru.



Pan mae cyrff yn agored a gonest am y camgymeriadau maen nhw yn eu gwneud, maen nhw yn aml yn gwella.



Maen nhw'n dysgu beth sydd wedi mynd o'i le ac yn ceisio gwneud pethau yn well.



Ond pan maen nhw yn cuddio camgymeriadau, yn aml dydy pethau ddim yn newid nac yn gwella.



Prif nod y **Dyletswydd Gonestrwydd** ydy gwneud cyrff yn fwy agored a gonest pan maen nhw yn gwneud camgymeriadau.



A gwneud yn siŵr eu bod nhw yn agored gyda'r bobl yn eu gofal sydd wedi dod i unrhyw niwed.




Rydyn ni'n credu y bydd hyn yn helpu cyrff fel y GIG i wneud gwell penderfyniadau.



Ac fe fydd yn meddwl gwell gofal i bobl.



Mae **Dyletswydd Gonestrwydd** ar gael nawr mewn gofal cymdeithasol.




Fe fydd y gyfraith newydd yn meddwl ei fod yn berthnasol i'r GIG o **2023**. Ac i ddarparwyr gofal iechyd eraill yn **2024**.

# Pryd y dylai Dyletswydd Gonestrwydd gael ei ddefnyddio




Mae **canllaw statudol** gyda'r **Dyletswydd Gonestrwydd**. Mae'n ddogfen sydd yn esbonio sut i ddilyn y **Dyletswydd Gonestrwydd**.



Fe fydd y canllaw yn helpu cyrff fel y GIG i ddeall beth mae'r gyfraith yn ei feddwl.



Ac mae'n rhoi enghreifftiau o sefyllfaoedd lle y byddai'r gyfraith yn berthnasol.

Mae'r **canllaw statudol** yn dweud y bydd y **Dyletswydd Gonestrwydd** yn berthnasol pan:



- Mae person sydd yn derbyn gofal wedi dioddef mewn rhyw ffordd neu y gallai ddioddef

- Ac efallai eu bod nhw wedi dioddef oherwydd y gofal maen nhw wedi ei gael.



Mae e oherwydd bod rhywbeth drwg wedi digwydd nad oedd neb wedi ei **ddisgwyl.** Ac nad oedd i **fod** i ddigwydd.



Felly, mae **Dyletswydd Gonestrwydd** yn berthnasol pan mae rhywbeth drwg wedi digwydd i rhywun oherwydd y gofal maen nhw wedi ei gael. **Dim** oherwydd eu salwch.




**Cwestiwn 1**

Ydy'r **canllaw statudol** yn glir am **pryd** mae'r **Dyletswydd Gonestrwydd** yn cael ei ddefnyddio?

**Ydy** ☐

**Nac Ydy** ☐

**Dim yn gwybod** ☐

Rhowch unrhyw feddyliau eraill sydd gennych chi yn y blwch os gwelwch yn dda:

## Helpu cyrff i ddeall pryd y dylai Dyletswydd Gonestrwydd gael ei ddefnyddio



Dyma'r cwestiynau y bydd angen i gyrff eu gofyn i weld os ydy **Dyletswydd Gonestrwydd** yn berthnasol.



**1. Ydy'r corff wedi rhoi gofal i'r person?**

Os ydy'r ateb yn **ydy** mae'n gallu bod yn berthnasol.



**2. Ydy'r person wedi cael profiad drwg?**

Os ydy'r ateb yn **ydy** mae'n gallu bod yn berthnasol



**3. Ydy'r gofal sydd wedi cael ei roi yn rheswm dros y profiad drwg?**

Os ydy'r ateb yn **ydy, mae'r Dyletswydd Gonestrwydd** yn berthnasol.




**Ond** fe fydd angen i'r corff feddwl hefyd am y **lefel o niwed** sydd wedi ei achosi i'r person.

**Lefelau niwed**




Os nad oes unrhyw niwed wedi digwydd, neu lefelau isel iawn o niwed, dydy'r **Dyletswydd Gonestrwydd ddim** yn berthnasol.

Dyma rai enghreifftiau o lefelau isel iawn o niwed:



- Roedd y person angen rhywfaint o feddyginiaeth ychwanegol



- Roedd y person angen cymorth cyntaf



- Roedd rhaid i'r person aros yn yr ysbyty am 1-3 diwrnod arall
- Fe wnaeth y person gwympo ac roedd angen triniaeth fechan.




Os oedd lefel uwch o niwed **fe fyddai Dyletswydd Gonestrwydd** yn cael ei ddefnyddio.

Dyma rai enghreifftiau o lefel uwch o niwed:




- Roedd rhaid i’r person aros yn yr ysbyty am 4 diwrnod neu fwy.



- Roedd triniaeth wedi cael ei ganslo neu ei ohirio.

- Roedd rhaid i’r person fynd i’r ysbyty am arhosiad nad oedd wedi cael ei drefnu.



- Roedd y person angen math arall o ofal neu driniaeth.



- Roedd y person wedi cael niwed y gellid fod wedi ei osgoi.

- Fe wnaeth y person ddioddef niwed parhaol i’w iechyd.



- Fe wnaeth y person farw.




**Cwestiwn 2**

Ydych chi'n meddwl bod y lefelau niwed yn ei gwneud yn glir pryd y dylai'r **Dyletswydd Gonestrwydd** gael ei ddefnyddio?

**Ydy** ☐

**Nac Ydy** ☐


**Dim yn gwybod** ☐

Rhowch unrhyw feddyliau eraill sydd gennych chi yn y blwch os gwelwch yn dda:

| |
|---|
| |



Yn yr adran uchod fe wnaethon ni siarad am y gwahanol fathau o niwed.



Fe wnaethon ni ddweud os oedd y niwed yn fach yna doedd y **Dyletswydd Gonestrwydd** **ddim** yn berthnasol.




Ond os oedd unrhyw ragor o niwed na hyn yna fe fyddai yn berthnasol. Rydyn ni'n galw'r mathau yma o niwed yn;

- **niwed cymhedrol**
- **niwed difrifol**
- a **marwolaeth**.

## Question 3





Ydych chin cytuno y dylai’r **Dyletswydd Gonestrwydd** gael ei ddefnyddio pan mae rhywun yn dioddef niwed cymhedrol neu ddifrifol neu farwolaeth?

**Ydy** ☐

**Nac Ydy** ☐

**Dim yn gwybod** ☐

Rhowch unrhyw feddyliau eraill sydd gennych chi yn y blwch os gwelwch yn dda:




**Cwestiwn 4**

Ydy'r gwahanol lefelau o niwed yn gwneud synnwyr?

**Ydy** ☐

**Nac Ydy** ☐

**Dim yn gwybod** ☐

Rhowch unrhyw feddyliau eraill sydd gennych chi yn y blwch os gwelwch yn dda:

## Here Enghraifft o niwed i berson



Yma rydyn ni wedi rhoi enghraifft o sefyllfa a beth rydyn ni'n feddwl wrth niwed.

Mae'r **Dyletswydd Gonestrwydd** yn gallu cael ei ddefnyddio hefyd lle y **gallai'r** person brofi niwed.



Roedd person gydag anabledd dysgu yn byw gyda'u teulu.



Roedden nhw wedi cael asesiad a dywedwyd wrthyn nhw eu bod nhw angen **offer trafod gyda llaw** newydd.

> Mae **offer trafod gyda llaw** yn helpu pobl i symud o gwmpas. Er enghraifft, hoist.



Ni chafodd yr offer ei archebu iddyn nhw am amser hir.



Yn eu hadolygiad nesaf roedd y person wedi cwympo llawer o weithiau ac wedi torri eu garddwrn.



**Fe fyddai'r Dyletswydd Gonestrwydd wedi** cael ei ddefnyddio yn y sefyllfa yma. Oherwydd roedd yr oedi wedi achosi llawer o niwed i'r person.



**Cwestiwn 5**

Ydy'r enghraifft yma o help i ddeall beth sydd yn cael ei feddwl wrth y niwed mae rhywun yn gallu ei brofi?

**Ydy** ☐

**Nac Ydy** ☐

**Dim yn gwybod** ☐

Rhowch unrhyw feddyliau eraill sydd gennych chi yn y blwch os gwelwch yn dda:

| |
|---|
| |



**Question 6**

Ydy'r enghraifft yn ddefnyddiol i'ch helpu i ddeall beth ydy **Dyletswydd Gonestrwydd**?

**Ydy** ☐

**Nac Ydy** ☐

**Dim yn gwybod** ☐

Rhowch unrhyw feddyliau eraill sydd gennych chi yn y blwch os gwelwch yn dda:

## Ydy'r Dyletswydd Gonestrwydd yn newydd i'r GIG?



Mae nifer o rannau o'r GIG yn dilyn rheolau fel y **Dyletswydd Gonestrwydd** nawr.



Maen nhw yn dilyn rheolau y dylen nhw fod yn agored a gonest pan mae pethau yn mynd o'i le.



Ond rydyn ni'n credu y bydd y ddeddf newydd yma yn gwneud rheolau fel hyn yn fwy cryf.



Fe fydd yn helpu staff i siarad i fyny pan mae pethau yn mynd o'i le.



Ac fe fydd yn meddwl y bydd rhaid i bawb ar draws y GIG weithio yn yr un ffordd.




**Cwestiwn 7**

Ydy hi'n glir bod yna reolau mae'n rhaid i rai staff GIG eu dilyn nawr, Ac fe fydd rhaid i **holl** staff GIG ddilyn y **Dyletswydd Gonestrwydd**

**Ydy** ☐

**Nac Ydy** ☐

**Dim yn gwybod** ☐


Rhowch unrhyw feddyliau eraill sydd gennych chi yn y blwch os gwelwch yn dda:

# Dweud wrth y person beth sydd wedi mynd o'i le



Pan mae'r **Dyletswydd Gonestrwydd** yn berthnasol, fe fydd angen i staff GIG siarad gyda'r person sydd wedi cael eu heffeithio.

Fe fydd angen iddyn nhw siarad gyda nhw yn bersonol. Mae hyn yn meddwl:



- Wyneb yn wyneb
- Ar y ffôn
- Neu drwy alwad fideo



Mae'n bwysig **nad** ydy'r person yn cael eu cysylltu i ddechrau drwy lythyr.



Os nad ydy'r person yn ateb y ffôn. Ddylen nhw **ddim** gadael neges.



Mae'n bwysig bod y person yn siarad gyda rhywun.



Fe ddylai'r GIG feddwl am y ffordd orau i siarad gyda'r person.

Fe ddylen nhw feddwl am y sefyllfa. Ac anghenion y person.



**Cwestiwn 8**

Ydy hi'n glir beth sydd angen ei wneud i gysylltu gyda'r person?

**Ydy** ☐

**Nac Ydy** ☐

**Dim yn gwybod** ☐

Rhowch unrhyw feddyliau eraill sydd gennych chi yn y blwch os gwelwch yn dda:

|  |
| --- |
|  |

# The Y broses Dyletswydd Gonestrwydd



Pan mae'r **Dyletswydd Gonestrwydd** yn berthnasol, fe fydd angen i'r GIG wneud y pethau yma:

- Cysylltu gyda'r person
- Esbonio beth sydd wedi digwydd
- Ymddiheuro
- Dweud beth fydd yn digwydd nesaf
- Cynnig cefnogaeth
- Rhoi manylion cyswllt
- Yna ysgrifennu at y person gyda'r holl fanylion o fewn 2 ddiwrnod



Yna fe fydd y digwyddiad yn cael ei **ymchwilio**.

Mae **ymchwilio** yn meddwl y bydd pobl yn edrych beth sydd wedi digwydd ac yn dweud beth sydd angen ei wneud i stopio hyn rhag digwydd eto.



Mae hefyd yn bwysig ysgrifennu popeth i lawr a chadw cofnodion a beth sydd yn cael ei wneud.




**Cwestiwn 9**

Ydy hi'n glir beth mae'n rhaid i'r GIG ei wneud pan mae **Dyletswydd Gonestrwydd** yn berthnasol?

**Ydy** ☐

**Nac Ydy** ☐

**Dim yn gwybod** ☐

Rhowch unrhyw feddyliau eraill sydd gennych chi yn y blwch os gwelwch yn dda:

## Pwy sydd yn gyfrifol?



Mae'r GIG yn gorff mawr yng Nghymru. Mae llawer o wahanol rannau ynddo. Er enghraifft:

- Byrddau Iechyd Lleol
- Darparwyr Gofal Sylfaenol. Er enghraifft, meddygon teulu, deintyddion a fferyllwyr.
- Ymddiriedolaethau GIG. Er enghraifft, Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru.



Weithiau fe fydd un rhan o'r GIG yn gwneud y gofalu ar ran rhan arall.

Er enghraifft, mae Bwrdd Iechyd Lleol yn gallu trefnu i feddyg teulu roi gofal i glaf.



Y meddyg teulu fyddai yn gyfrifol am y **Dyletswydd Gonestrwydd**.

Ond os ydy'r GIG yn trefnu gofal y tu allan i'r GIG, fe fyddai'r GIG yn parhau i fod yn gyfrifol. Er enghraifft, os ydy'r GIG yn trefnu bod ambiwlans preifat yn mynd â rhywun gartref, y GIG sydd yn parhau i fod yn gyfrifol.




**Cwestiwn 10:**

Ydy'r canllaw yn glir am bwy sydd yn gyfrifol?

**Ydy** ☐

**Nac Ydy** ☐

**Dim yn gwybod** ☐

Rhowch unrhyw feddyliau eraill sydd gennych chi yn y blwch os gwelwch yn dda:

**Cwestiwn 11**



Ydy hi'n glir beth fydd angen i'r corff cyfrifol ei wneud pan fydd y **Dyletswydd Gonestrwydd** yn berthnasol? Roedd gwybodaeth ychwanegol am hyn ar dudalen 22 dudalen 24.

**Ydy** ☐

**Nac Ydy** ☐


**Dim yn gwybod** ☐

Rhowch unrhyw feddyliau eraill sydd gennych chi yn y blwch os gwelwch yn dda:

# Rhestrau aros



Mae llawer o bobl yn aros am driniaeth a gofal GIG ar restrau aros.




Mae hyn wedi mynd yn waeth oherwydd y pandemig coronafeirws.



Os ydych chi ar restr aros mae hyn fel arfer yn meddwl eich bod wedi cael eich cyfeirio gan weithiwr meddygol proffesiynol ac wedi cael rhywfaint o ofal iechyd yn barod.




Mae hyn yn meddwl y gellid defnyddio'r **Dyletswydd Gonestrwydd** os ydych chi ar restr aros ac wedi cael niwed.



Er mwyn defnyddio'r **Dyletswydd Gonestrwydd**, rhaid i'r niwed fod yn **anfwriadol** neu yn **annisgwyl.**




Rydyn ni'n gwybod y bydd nifer o bobl ar restrau aros yn cael rhywfaint o niwed. Maen nhw'n aros am y driniaeth maen nhw ei angen, Dydy'r niwed yma **ddim** yn annisgwyl. Ni fyddai'r **Dyletswydd Gonestrwydd** yn cael ei ddefnyddio.



Ond os oedd y person wedi ei fethu ar y rhestr aros, neu heb gael eu rhoi ar y rhestr yn gywir, efallai bod hyn yn gallu achosi niwed **anfwriadol**. Mae'r **Dyletswydd Gonestrwydd** yn gallu cael ei ddefnyddio yn y sefyllfa yma.



Dydy hi ddim bob amser yn glir pan mae pobl ar restrau aros pwy fydd yn gyfrifol am y **Dyletswydd Gonestrwydd** os oes ei angen.




Efallai bod cyfeiriad wedi cael ei wneud gan feddyg teulu. Ond dydy'r meddyg teulu ddim yn gyfrifol am y rhestrau aros.



Yr ysbyty sydd yn gyfrifol am y rhestrau aros. Ond dydyn nhw ddim wedi darparu unrhyw ofal iechyd eto.



Fe ddylai pob corff GIG weithio gyda'i gilydd i wneud yn siŵr bod y **Dyletswydd Gonestrwydd** yn cael ei ddilyn pan fydd angen yn y sefyllfaoedd yma.



**Cwestiwn newydd 12**


Ydy hi'n glir **pryd** y dylai'r **Dyletswydd Gonestrwydd** gael ei ddefnyddio pan mae pobl ar restrau aros yn cael niwed?

**Ydy** ☐

**Nac Ydy** ☐

**Dim yn gwybod** ☐


Rhowch unrhyw feddyliau eraill sydd gennych chi yn y blwch os gwelwch yn dda:



**Cwestiwn newydd 13**

Sut rydyn ni'n gallu gwneud beth sydd yn digwydd pan mae pobl ar restrau aros yn cael niwed yn gliriach?

## Adrodd




Fe fydd angen i'r GIG ysgrifennu adroddiadau bob blwyddyn i ddweud os ydy'r **Dyletswydd Gonestrwydd** wedi cael ei ddefnyddio

**Fe fydd angen i'r adroddiadau:**



1. Dweud pa mor aml mae'r **Dyletswydd Gonestrwydd** wedi cael ei ddefnyddio.

2. Disgrifio beth sydd wedi digwydd.





3. Dangos beth sydd wedi cael ei wneud a dweud sut maen nhw'n bwriadu stopio hynny rhag digwydd eto.



4. Rhaid i Fyrddau Iechyd Lleol ysgrifennu 1 adroddiad mawr. Fe fydd yn dibynnu ar yr wybodaeth sydd yn cael ei roi gan ddarparwyr Gofal Sylfaenol.





5. Rhaid i Fyrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau GIG ac Awdurdodau Iechyd Arbennig ysgrifennu adroddiad bob blwyddyn.




6. **Ni** ddylai gwybodaeth bersonol pobl gael ei gynnwys.

7. Rhaid i'r adroddiad gael ei ysgrifennu a bod ar gael i bawb ei ddarllen.

### Cwestiwn 14




A yw'n glir beth sy'n rhaid i sefydliadau'r GIG ei wneud ynghylch adrodd?

**Ydy** ☐

**Nac Ydy** ☐

**Dim yn gwybod** ☐

Rhowch unrhyw feddyliau eraill sydd gennych chi yn y blwch os gwelwch yn dda:

## Question 15



**Ydy** ☐

**Nac Ydy** ☐

**Dim yn gwybod** ☐

Rhowch unrhyw feddyliau eraill sydd gennych chi yn y blwch os gwelwch yn dda:

# Dyddiadau ar gyfer adrodd



Nid ydym am i'r **Ddyletswydd Gonestrwydd** greu gwaith ychwanegol diangen. Felly, bydd adroddiadau **Dyletswydd Gonestrwydd** yn cael eu gwneud gyda'r adroddiadau Gweithio i Wella.




Er mwyn sicrhau bod gan Fyrddau Iechyd Lleol amser i ysgrifennu eu hadroddiadau, bydd angen iddynt gael yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt mewn pryd.




Bydd angen i ddarparwyr Gofal Sylfaenol roi eu gwybodaeth iddynt erbyn 30 Medi bob blwyddyn.




Bydd yr adroddiadau terfynol ar gael erbyn 31 Hydref.



**Cwestiwn 16**

Ydych chi'n meddwl y bydd cael gwybodaeth erbyn 30 Medi, ac ysgrifennu'r adroddiad terfynol erbyn 31 Hydref yn gweithio'n iawn?

**Ydy** ☐

**Nac Ydy** ☐

**Dim yn gwybod** ☐

Rhowch unrhyw feddyliau eraill sydd gennych chi yn y blwch os gwelwch yn dda:

**Question 17**



Rhaid i'r GIG eisoes ysgrifennu adroddiadau tebyg ar wahanol adegau o'r flwyddyn.

A ydych yn meddwl y byddai'n well pe bai'r adrodd ar y **Ddyletswydd Gonestrwydd** yn cael ei wneud fel rhan o'r adroddiad arall? Yn hytrach na chael rhai ychwanegol i'w hysgrifennu?

**Ydy** ☐

**Nac Ydy** ☐

**Dim yn gwybod** ☐

Rhowch unrhyw feddyliau eraill sydd gennych chi yn y blwch os gwelwch yn dda:

## Beth sydd yn digwydd pan mae rhywun yn cysylltu gyda pherson?



Pan mae'r **Dyletswydd Gonestrwydd** yn berthnasol, rhaid cysylltu gyda'r person sydd wedi cael ei effeithio.



Fe ddylid cysylltu gyda'r person ar unwaith. Dim ar ddiwedd **ymchwiliad.**



Mae'n iawn cysylltu gyda person sydd yn gweithredu ar ran rhywun. Er enghraifft, aelod o'r teulu, os ydy hynny wedi cael ei gytuno.




Mae'n bwysig dilyn deddfau am gadw gwybodaeth pobl yn breifat.



Fe fydd angen i'r GIG benderfynu pwy ydy'r aelod gorau o'r staff i gysylltu gyda'r person.



Fe ddylai fod ganddyn nhw ddigon o brofiad i allu ateb cwestiynau am y **Dylestwydd Gonestrwydd**.



Mae angen iddyn ymddiheuro am beth sydd wedi digwydd. Ac esbonio beth fydd yn digwydd nesaf.



Mae angen iddyn nhw hefyd gynnig unrhyw gefnogaeth y gall y person fod ei angen.

**Cwestiwn 18**



Ydy hi'n glir **pryd** i gysylltu gyda rhywun ar ran person?

**Ydy** ☐

**Nac Ydy** ☐

**Dim yn gwybod** ☐

Rhowch unrhyw feddyliau eraill sydd gennych chi yn y blwch os gwelwch yn dda:



Rhaid cysylltu gyda'r person sydd wedi cael ei effeithio. Ond mae'r GIG yn gallu cysylltu gyda rhywun sydd yn gweithredu ar eu rhan os:



- Mae'r person wedi marw.



- Does gan y person ddim **gallu**

| |
|---|
| Os nad oes gan rhywun y **gallu**, mae'n meddwl nad ydyn nhw efallai yn gallu gwneud eu penderfyniadau eu hunain. Neu efallai eu bod angen help gyda gwneud rhai penderfyniadau |



- Mae'r person wedi gofyn i rhywun arall weithredu ar eu rhan.



Fe ddylid cysylltu gyda nhw ar unwaith. Dim ar ddiwedd **ymchwiliad**.



**Cwestiwn 17**

A yw'n glir pryd i gysylltu â rhywun ar ran person?

**Ydy** ☐

**Nac Ydy** ☐

**Dim yn gwybod** ☐

Rhowch unrhyw feddyliau eraill sydd gennych chi yn y blwch os gwelwch yn dda:




Weithiau dydy person ddim eisiau siarad gyda'r GIG am y **Dyletswydd Gonestrwydd**.



Os ydy hyn yn digwydd, mae angen i'r GIG ysgrifennu popeth maen nhw wedi ei wneud i gysylltu gyda'r person

**Cwestiwn 18**




Ydy hi'n glir beth mae angen i'r GIG ei wneud os nad ydy'r person eisiau i neb gysylltu gyda nhw?

**Ydy** ☐

**Nac Ydy** ☐

**Dim yn gwybod** ☐

Rhowch unrhyw feddyliau eraill sydd gennych chi yn y blwch os gwelwch yn dda:

| |
|---|
| |



**Cwestiwn 19**

Ydych chi'n meddwl bod y canllaw yn siarad digon am anghenion y person a beth mae'n rhaid i'r GIG ei wneud?

**Ydy** ☐

**Nac Ydy** ☐

**Dim yn gwybod** ☐

Rhowch unrhyw feddyliau eraill sydd gennych chi yn y blwch os gwelwch yn dda:

| |
|---|
| |



**Cwestiwn 20**

Ydych chi'n meddwl ei bod yn bwysig cysylltu gyda rhywun yn bersonol? Mae hyn yn meddwl wyneb yn wyneb neu ar y ffôn. **Dim** drwy lythyr.

**Ydy** ☐

**Nac Ydy** ☐

**Dim yn gwybod** ☐

Rhowch unrhyw feddyliau eraill sydd gennych chi yn y blwch os gwelwch yn dda:



Pan yn cysylltu gyda rhywun, fe fydd angen i'r GIG feddwl am:

- Beth sydd wedi digwydd
- Y niwed sydd wedi ei achosi
- Anghenion y person



**Cwestiwn 21**

Ydych chi'n cytuno y dylai'r GIG feddwl am y pethau yma cyn cysylltu gyda rhywun?

**Ydy** ☐

**Nac Ydy** ☐

**Dim yn gwybod** ☐

Rhowch unrhyw feddyliau eraill sydd gennych chi yn y blwch os gwelwch yn dda:




Mae'n bwysig bod y GIG yn ymddiheuro i'r person sydd wedi cael ei effeithio.



Fe ddylai'r GIG feddwl beth maen nhw'n ei ddweud. A cheisio cywiro pethau.




Rhaid i'r GIG feddwl am sut mae'r person wedi cael ei effeithio.



A gwneud rhywbeth i wneud yn siŵr na fydd y pethau yma yn digwydd eto.



Mae canllaw ar gael i helpu staff i ymddiheuro yn y ffyrdd cywir a gorau.



Fe ddylid ysgrifennu pob ymddiheuriad




**Cwestiwn 22**

Ydych chi'n meddwl bod digon o wybodaeth i helpu i wneud yn siŵr bod staff yn ymddiheuro yn y ffordd gorau?

**Ydy** ☐

**Nac Ydy** ☐

**Dim yn gwybod** ☐

Rhowch unrhyw feddyliau eraill sydd gennych chi yn y blwch os gwelwch yn dda:

| |
|---|
| |



**Cwestiwn 23**

Ydych chi'n cytuno y dylid ysgrifennu am y sefyllfa ar ôl siarad gyda'r person?

**Ydy** ☐

**Nac Ydy** ☐

**Dim yn gwybod** ☐

Rhowch unrhyw feddyliau eraill sydd gennych chi yn y blwch os gwelwch yn dda:



Fe ddylai'r cofnod ysgrifenedig gael ei anfon at y person o fewn 2 ddiwrnod ar ôl cysylltu gyda nhw.

**Cwestiwn 24**

Ydych chi'n cytuno gyda'r amser yma?

**Ydy** ☐

**Nac Ydy** ☐

**Dim yn gwybod** ☐

Rhowch unrhyw feddyliau eraill sydd gennych chi yn y blwch os gwelwch yn dda:



## Hyfforddiant

Fe fydd hyfforddiant ar gael i helpu staff GIG i wybod am y **Dyletswydd Gonestrwydd**.



Fe fydd yn gwneud yn siŵr bod staff yn gwybod pryd mae'r dyletswydd yn berthnasol a beth sydd angen ei wneud.




Fe fyddan nhw'n cael y sgiliau maen nhw eu hangen i ddilyn y dyletswydd.



Fe fydd angen hyfforddi staff sydd yn rhoi gofal a thriniaeth.



Fe fydd angen hyfforddi staff sydd yn gorfod delio gyda sefyllfaoedd anodd.



Ac fe fydd angen hyfforddi staff fydd yn cysylltu gyda phobl am y dyletswydd.

## Cwestiwn 25



Ydych chi'n meddwl bod yr holl staff cywir yn cael eu hyfforddi?

**Ydy** ☐

**Nac Ydy** ☐

**Dim yn gwybod** ☐

Rhowch unrhyw feddyliau eraill sydd gennych chi yn y blwch os gwelwch yn dda:



**Cwestiwn 26**

Pa hyfforddiant arall ydych chi’n meddwl y gallai staff fod ei angen?



**Cwestiwn 27**

Ydych chi’n meddwl bod digon o gefnogaeth i staff?

**Ydy** ☐

**Nac Ydy** ☐


**Dim yn gwybod** ☐

Rhowch unrhyw feddyliau eraill sydd gennych chi yn y blwch os gwelwch yn dda:

## NHS Sut fydd y dyletswydd yn cael ei reoli yn y GIG



Fe fydd angen i gyrff GIG benderfynu ar berson i fod yn gyfrifol am y **dyletswydd gonestrwydd**.




Mae yna reolau ychydig yn wahanol ar pwy y mae'r person yma yn gallu bod. Mae'n dibynnu pa ran o'r GIG ydy e.



Ond mae'n bwysig gwneud yn siŵr bod y person sydd yn gyfrifol yn gallu gwneud yn siŵr bod y rheolau yn cael eu dilyn.




Rhaid i'r GIG gadw gwybodaeth yn breifat lle mae angen. Rhaid iddo feddwl am y gyfraith am drafod gwybodaeth. Enw hyn ydy **GDPR**.



**Cwestiwn 28**

Ydych chi'n meddwl bod y rheolau am pwy sydd yn gorfod bod yn gyfrifol yn ddefnyddiol i'r GIG?

**Ydy** ☐

**Nac Ydy** ☐

**Dim yn gwybod** ☐

Rhowch unrhyw feddyliau eraill sydd gennych chi yn y blwch os gwelwch yn dda:



**Cwestiwn 29**

Ydych chi'n meddwl y bydd y rheolau yma yn helpu'r GIG i roi'r arweinyddiaeth cywir?

**Ydy** ☐

**Nac Ydy** ☐

**Dim yn gwybod** ☐

Rhowch unrhyw feddyliau eraill sydd gennych chi yn y blwch os gwelwch yn dda:




Rhaid i'r GIG ddilyn set o reolau o'r enw **Gweithio i Wella**



Mae llawer o wybodaeth yn **Gweithio i Wella** sydd yn debyg i'r **Dyletswydd Gonestrwydd**. Maen nhw am ddiogelwch.



Rydyn ni eisiau i ddyddiad cychwyn y **Dyletswydd Gonestrwydd** fod y dyddiad y gwnaeth y corff sylweddoli i ddechrau y dylid defnyddio'r **Dyletswydd Gonestrwydd.**



Yna mae'n rhaid iddyn nhw wneud cysylltiad wyneb yn wyneb neu ar y ffôn gyda'r person. A dilyn y broses **Dyletswydd Gonestrwydd.**



**Cwestiwn 30**

Ydych chi'n cytuno y dylai'r dyddiad cychwyn ar gyfer y broses **Dylestwydd Gonestrwydd** fod y dyddiad y gwnaeth y staff sylweddoli i ddechrau y dylid defnyddio'r **Dyletswydd Gonestrwydd**?

**Ydy** ☐

**Nac Ydy** ☐

**Dim yn gwybod** ☐

Rhowch unrhyw feddyliau eraill sydd gennych chi yn y blwch os gwelwch yn dda:

## Newidiadau i Reoliadau Gweithio i Wella



Mae llawer o bethau yn y **Dyletswydd Gonestrwydd** yn debyg i **Gweithio i Wella**. Weithiau fe fydd y deddfau yma yn gweithio gyda'i gilydd ac yn effeithio ar ei gilydd.



Oherwydd hynny fe fydd angen gwneud rhai newidiadau i **Gweithio i Wella**, i wneud yn siŵr eu bod nhw yn gweithio gyda'r **Dyletswydd Gonestrwydd**.



Er enghraifft,mae **Gweithio i Wella** yn dweud eich bod yn gallu penderfynu **peidio** dweud wrth rhywun os oedd niwed wedi cael ei achosi os ydy hynny er eu lles gorau.



Fe fydd angen i'r GIG ysgrifennu manylion am hyn er hynny. A dweud pam maen nhw wedi penderfynu peidio dweud wrth y person.



Nawr mae **Gweithio i Wella** yn dweud bod rhaid dweud wrth y person os ydy rhywbeth wedi mynd o'i le gyda eu gofal ac mae **Dyletswydd Gonestrwydd** yn cael ei ddefnyddio.





Ond does dim angen iddyn nhw fod yn rhan o'r broses na'r **ymchwiliad**, os mai dyna sydd orau iddyn nhw.



Fel arfer fe fydd pobl yn rhan o ymchwiliadau. Ond weithiau mae hyn yn gallu achosi rhagor o straen neu niwed.



## Cwestiwn 31

Ydych chi'n meddwl y bydd newid rheolau **Gweithio i Wella** yn achosi problemau?

**Ydy** ☐

**Nac Ydy** ☐

**Dim yn gwybod** ☐



Rhowch unrhyw feddyliau eraill sydd gennych chi yn y blwch os gwelwch yn dda.

Er enghhraifft, ydych chi'n meddwl y byddai'n well **peidio** dweud wrth y person beth sydd wedi digwydd **os** ydy hynny er eu lles gorau?

## Cwestiwn 32



Ydy hi'n glir sut mae'r **Dyletswydd Gonestrwydd** a **Gweithio i Wella** yn gweithio gyda'i gilydd?

**Ydy** ☐

**Nac Ydy** ☐

**Dim yn gwybod** ☐

Rhowch unrhyw feddyliau eraill sydd gennych chi yn y blwch os gwelwch yn dda:




Mae rhthai newidiadau i **Gweithio i Wella**




Er enghraifft, newid amseru adroddiadau fel bod **Gweithio i Wella** a **Dyletswydd Gonestrwydd** yn cyd-fynd.




Mae **gweithio i Wella** hefyd wedi bod angen ei ddiweddaru am resymau eraill.




Er enghraifft, fel eu bod wedi'u diweddaru i gyd-fynd gyda deddfau am gadw gwybodaeth.




## Cwestiwn 33

Ydy’r newidiadua i **gweithio i Wella** yn gwneud synnwyr?

**Ydy** ☐

**Nac Ydy** ☐

**Dim yn gwybod** ☐

Rhowch unrhyw feddyliau eraill sydd gennych chi yn y blwch os gwelwch yn dda:

## Cwestiwn 34



Ydych chi'n meddwl y bydd y newidiadau yn ddigon i helpu **Gweithio i Wella** a'r **Dyletswydd Gonestrwydd** i weithio gyda'i gilydd?

**Ydy** ☐

**Nac Ydy** ☐

**Dim yn gwybod** ☐

Rhowch unrhyw feddyliau eraill sydd gennych chi yn y blwch os gwelwch yn dda:

## Trin pobl yn gyfartal ac yn deg



Rydyn ni wedi rhoi llawer o feddwl i'r effeithiau y gallai'r **Dyletswydd Gonestrwydd** ei gael ar wahanol grwpiau o bobl.



Er enghraifft:

- Pobl anabl
- Pobl o wahanol oedrannau
- Pobl gyda rhai cyflyrau iechyd



Rydyn ni'n credu na fydd y **Dyletswydd Gonestrwydd** yn effeithio ar unrhyw grwpiau yn wahanol.



Ond rydyn ni yn meddwl y gallai pobl anabl neu bobl hŷn gael eu heffeithio gan y **Dyletswydd Gonestrwydd** yn fwy aml.



Oherwydd mae'r grwpiau yma yn fwy tebygol o fod angen gwasanaethau iechyd.



Ond mae hyn yn beth da. Oherwydd fe fydd y **Dyletswydd Gonestrwydd** yn rhoi mwy o amddiffyniad i'r grwpiau yma.



**Cwestiwn 35**

Beth ydych chi'n feddwl am sut y gallai'r **Dyletswydd Gonestrwydd** effeithio ar wahanol grwpiau o bobl?

# Yr iaith Gymraeg

**Cwestiwn 36**

Ydych chi'n meddwl y bydd gan y **Dyletswydd Gonestrwydd** unrhyw effaith ar yr iaith Gymraeg? Er enghraifft, ar ei thrin yn yr un ffordd â'r iaith Saesneg?

Ysgrifenwnch beth rydych chi'n feddwl yn y blwch os gwelwch yn dda:



**Cwestiwn 37**

Ydych chi'n meddwl y gallai'r **Dyletswydd Gonestrwydd** gael effaith da neu ddrwg ar yr iaith Gymraeg?

Ysgrifenwnch beth rydych chi'n feddwl yn y blwch os gwelwch yn dda:



**Cwestiwn 38**

Os oes yna rhywbeth arall yr hoffech ei ychwanegu am unrhywbeth dydyn ni ddim wedi ei gynnwys, ysgrifennwch yn y blwch os gwelwch yn dda:




Diuolch am ateb y cwestiynau yma.

Anfonwch nhw yn ôl:



**E-bost:**
HSCQualityandEngagement@gov.wales



**Post:** Adran Gofal Iechyd y Boblogaeth

Grŵp Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Swyddfeydd Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ


# Sut rydyn ni'n  defnyddio eich gwybodaeth




Rydyn ni yn defnyddio eich gwybodaeth drwy ddilyn deddf o'r enw **Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (UK GDPR)**




Fe fydd ein staff yn gallu gweld eich atebion. Weithiau rydyn ni'n gofyn i gyrff eraill ein helpu ni i ddeall atebion pobl. Felly, efallai y byddan nhw yn gweld eich gwybodaeth hefyd.




Rydyn ni fel arfer yn cyhoeddi adroddiad yn dangos y mathau o bethau mae pobl wedi ei ddweud.



Weithiau mae hyn yn meddwl bod manylion personol pobl yn cael eu cynnwys. Dywedwch wrthyn ni os nad ydych chi eisiau i'ch manylion personol gael eu cynnwys.




Os ydych chi yn ein hadroddiad mae'r wybodaeth yn gallu bod ar gael am amser hir. Ond dim ond am 3 blynedd y mae gwybodaeth sydd ddim wedi cael ei gyhoeddi yn cael ei gadw.




Mae'r deddf diogelu data yn rhoi hawl i chi:

- Gwybod pa wybodaeth sydd gennym ni amdanoch chi a sut y gallwch ei weld.
- Gwneud inni newid unrhyw gamgymeriadau yn yr wybodaeth amdanoch chi.
- Gofyn inni beidio defnyddio'r wybodaeth mewn rhai achosion.
- Gofyn inni ddileu'r wybodaeth sydd gennym ni amdanoch chi mewn rhai achosion.
- Symud yr wybodaeth amdanoch chi i rhywle arall mewn rhai achosion.
- Cwyno wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Os ydych chi eisiau gwybod rhagor am sut mae eich gwybodaeth yn cael ei gadw a'i ddefnyddio, cysyltlwh gyda ni yn:



**Post:** Swyddog Diogelu Data
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ



**E-mail:** [Data.ProtectionOfficer@gov.wales](mailto:Data.ProtectionOfficer@gov.wales)

Gallwch hefyd gysylltu gyda **Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth**



**Post:** Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF



**Ffôn:** 01625 545745 **or** 0303 123 1113




**Gwefan:** [https://cy.ico.org.uk/](https://cy.ico.org.uk/)

# Geiriau Anodd

## Dyletswydd Gonestrwydd

Mae hyn yn meddwl bod gan gyrff fel y GIG ddyletswydd i fod yn agored gyda phobl maen nhw'n gofalu amdanyn nhw pan mae pethau yn mynd o'i le.

A cheisio cywiro pethau os ydyn nhw wedi achosi niwed.

## Gallu

Os nad oes gan rhyywun y gallu mae'n meddwl nad ydyn nhw efallai yn gallu gwneud eu penderfyniadau eu hunain. Neu efallai eu bod nhw angen help wrth wneud rhai penderfyniadau.

## Offer trafod gyda llaw

Mae offer trafod gyda llaw yn helpu pobl i symud o gwmpas. Er enghraifft, hoist.

## Ymchwilio

Mae hyn yn meddwl y bydd pobl yn edrych ar beth sydd wedi digwydd a gwneud penderfyniad ynghylch beth sydd wedi mynd  o'i le.